Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

18 Gorffennaf 2018

Annwyl Mr Slade,

**Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru**

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn ein hadroddiad yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf.

Er bod yr holl argymhellion wedi eu derbyn, wrth ddarllen manylion yr ymateb, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'n ymddangos bod Argymhelliad 3 wedi'i dderbyn.

Rwy'n ymwybodol bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw swyddogion Llywodraeth Cymru at fater y blaendal a oedd yn cael ei gadw mewn cyfrif ysgrow, a hynny fis Mehefin y llynedd, yn syth ar ôl i'r Cabinet benderfynu peidio â bwrw ymlaen â chynllun Cylchdaith Cymru. Gan hynny, byddwn wedi gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru wedi mynd at ar unwaith i gymryd y camau priodol i ddiogelu'r £100,000 a oedd yn y cyfrif ysgrow. Fodd bynnag, o'r ymateb i'r argymhelliad, ymddengys mai dim ond ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad fis Mai eleni y dechreuodd y Llywodraeth gymryd y camau hynny. Os felly, byddwn wedi disgwyl i chi ddangos mwy o frys wrth ymdrin â'r mater hwn. A allwch chi roi gwybod i mi pryd yr aethoch ati i adennill yr arian o'r cyfrif ysgrow?

O ran Argymhelliad 6, mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod ganddi brosesau cadarn ar waith eisoes i ymdrin â phryderon o'r natur hwn. Hoffwn wybod sawl gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae swyddogion wedi mynegi pryderon, oherwydd bydd y wybodaeth honno'n rhoi syniad o sut y mae'r prosesau hynny'n gweithredu mewn gwirionedd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Yn olaf, mewn perthynas ag Argymhelliad 13, hoffwn wybod faint o sicrhad y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl i ddiogelu ei dyled o £7.3m gan HoVDC sy'n deillio o warant benthyciad Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**